*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Strategaethau a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2026/27** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r strategaethau a'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2026/27 i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod): y Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP). Mae'r dogfennau hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi cyfalaf, benthyca ac ad-dalu dyled.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r strategaethau yn darparu dull yr Awdurdod o ymdrin â gwariant cyfalaf, cyllido, benthyca, buddsoddi, ac isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer 2026/27.

3 Maent yn sicrhau y cydymffurfir â Deddf Llywodraeth Leol 2003, Cod Materion Ariannol CIPFA, a Chod Rheoli Trysorlys CIPFA.

4 Nodir y goblygiadau ariannol, y dangosyddion darbodus, y trefniadau llywodraethu, a'r dull rheoli risg ar gyfer 2026/27 yn yr adroddiadau cysylltiedig.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

- **i) Gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf**
- **ii) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys dangosyddion darbodus.**
- **iii) Cymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol 2026/27.**

## CEFNDIR

5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod bob blwyddyn gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a Datganiad MRP. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf hirdymor yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, a bod gweithgareddau benthyca a buddsoddi yn cael eu rheoli o fewn fframwaith rheoli cadarn.

## GWYBODAETH

6 Mae'r Strategaeth Gyfalaf (y Strategaeth), a'r Dangosyddion Darbodus cysylltiedig, wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n rhoi trosolwg o wariant cyfalaf a ragwelir ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, a gofynion ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys, am y 3 blynedd nesaf.

7 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi gwariant cyfalaf arfaethedig, ffynonellau cyllido, a blaenoriaethau buddsoddi hirdymor.

8 Mae Strategaeth Rheoli’r Trysorlys yn amlinellu'r dull o ymdrin â benthyca, buddsoddiadau, rheoli llif arian, a dangosyddion darbodus cysylltiedig.

9 Mae'r Datganiad MRP yn cadarnhau'r dull ar gyfer cyfrifo'r tâl darbodus i refeniw ar gyfer ad-dalu dyled.

10 Darperir yr holl fanylion ategol yn yr adroddiadau llawn sydd ynghlwm.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r strategaethau yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor trwy sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn galluogi darparu gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol. |
| Cyllideb | Mae costau ariannu sy'n deillio o fenthyca a MRP wedi'u hadlewyrchu yng nghyllideb refeniw 2026/27. |
| Cyfreithiol | Mae'r strategaethau yn bodloni gofynion statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chodau CIPFA perthnasol. |
| Staffio | Dim goblygiadau staffio uniongyrchol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau staffio uniongyrchol. |
| Risgiau | Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |